# Llais yr Andes

Pris: $20

*Papur Bro Hydref (Trevelin ac Esquel)* *Rhagfyr 2015*

## Diwedd blwyddyn arbennig yn yr Andes

Anodd credu ein bod yng nghanol dathliadau diwedd tymor ac yn clodfori disgyblion a myfyrwyr lu sydd wedi bod yn mynychu gwersi a chymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol yn ystod blwyddyn dathlu Canmlwyddiant a Hanner y Wladfa Gymreig. Bu´n flwyddyn brysur iawn a thipyn o fynd a dod o bob cyfeiriad. Croesawyd ymwelwyr yn gyson, nifer helaeth ohonynt yn wynebau cyfarwydd yma. Felly mawr obeithiaf y cewch llawer o foddhad yn darllen y rhifyn yma sy´n cynnwys erthyglau ac adroddiadau diddorol am brofiadau cyfeillion pell ac agos. Diolchwn am y cyfle i gael cydweithio gyda´n gilydd i sicrhau fod dyfodol yr iaith Gymraeg yn cael lle amlwg a chyson yn yr Andes. Mawr obeithiwn wrth weld datblygiadau cadarnhaol iawn ymhlith addysg cynradd y bydd y to ifanc yn parhau i ddyfalbarhau i wireddu´r freuddwyd.

Er gwaethaf pawb a phopeth da ni yma o hyd. Eluned Jones








Yn y rhifyn hwn:

Casgliad y Werin - tudalen 7

O'r ysgolion - tudalen 9

Llyfrau i´w darllen - tudalen 13



Eluned Jones

Eich papur bro chi ydy hwn, felly cofiwch anfon eich cyfraniadau nesaf at Nia Jones.

## Gair gan y golygydd

Pleser o'r mwyaf yw golygu´r trydydd rhifyn yma. Diolch am gydweithrediad pawb ar hyd y flwyddyn ac am eich parodrwydd i gyflwyno gwaith amrywiol at ddant pawb. Dymuniadau gorau i´r dyfodol.

## Fy Ngwyliau - gweithio ym Mhatagonia gan Suzanne Condon





Mae llawer o bobl wedi gofyn i mi sut daeth y cyfle i ymweld â Phatagonia. Dw i'n esbonio mod i wedi cynllunio a chreu cyfle i fi fy hun. Roedd y daith yn ganlyniad o gynllunio ymlaen, caniatâd y gwaith ac wrth gwrs tipyn o gymorth gan fy ngyfeillion. Dw i'n lwcus iawn fel aelod o staff y Ganolfan i gwrdd â phobl o Batagonia yn ystod y Cwrs Haf ac i weithio gydag ambell un hefyd.

Yn ystod y cyfnod o baratoi newidiais i swydd. Roedd hyn yn lleihau'r amser oedd gyda fi yn Yr Ariannin ond ro'n i'n ffodus i fwrw ymlaen gyda'r daith. Yn wreiddiol ro'n i'n mynd fel person 'Dysgu Anffurfiol' ble ro'n i'n gobeithio creu cyfleoedd am fentora dros y môr a digwyddiadau 'dewch am sgwrs'. Erbyn i mi fynd ro'n i wedi cael dyrchafiad ac ro'n i'n gofalu am ddysgwyr Cwrs yr Haf. Felly, erbyn i mi ymadael â Chaerdydd roedd fy nghynllun wedi newid. Ro'n i eisiau gweld sut mae dysgu Cymraeg ym Mhatagonia'n wahanol i Gymru e.e. costau, rhwystrau, ffordd o fyw, maint y trefi a.y.y.b.

Yn 2015 roedd Cwrs Haf Caerdydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 40 oed. Er bod angen newid lleoliad sawl gwaith er mwyn ateb gofynion yr oes yn y bôn yr un cwrs yw e. Mae pobl yn dod o bedwar ban y byd i ddysgu'r iaith. Dw i'n edrych ymlaen at eich croesawu chi yn y dyfodol. Do'n i ddim wedi teithio'n bell o'r blaen felly roedd teithio ar fy mhen fy hun yn fy rhoi yn esgidiau rhai o'n dysgwyr. Fodd bynnag roedd dringo ar y bws a ffarwelio â Chaerdydd yn haws o lawer oherwydd y cysylltiadau oedd gyda fi yn y Wladfa. Roedd derbyn e-byst a negeseuon ymlaen llaw yn gysur mawr.

Roedd defnyddio'r arian yn ddiddorol gan fod $100 (pesos) yn werth tua £6.80. Roedd dysgu ychydig o Sbaeneg cyn i mi fynd yn brofiad sy'n fy atgoffa am yr amser mae dysgu iaith yn cymryd. Ond roedd pob profiad newydd yn wych a gwerthfawr. Does dim ffordd well o ddysgu iaith na mynd i'r wlad ei hunan. Ro'n i'n hoffi ymarfer fy 'Castellano'.

Teithiais o gwmpas yn rhannu fy ngwybodaeth am ddawnsio gwerin a'r Fari Lwyd. Ymwelais i â dosbarthiadau er mwyn rhoi esgus iddyn nhw ofyn cwestiynau a chlywed acen Gymraeg Caerdydd. Hefyd ceisiais i gasglu enwau pobl oedd eisiau E-Ffrind yma yng Nghymru. Ces i gwmni hyfryd yn yr Andes gan fy mod i'r aros gyda Liliana ac yn teithio o gwmpas tipyn gydag Eluned ar y bws. Wedyn es i ymlaen i'r Gaiman ble bues i'n feirniad yn Eisteddfod y bobl Ifainc!

Nawr fy mod i nôl yng Nghymru mae fy nealltwriaeth am Gymry Yr Ariannin yn well a bydd yn haws croesawu dysgwyr i'n Cwrs Haf. Baswn i'n dweud y peth mwya pwysig oedd wedi fy nghynorthwyo innau oedd dod i nabod pobl cyn teithio. Felly os dych chi'n meddwl am ddod ar Gwrs Haf cysylltwch â fi er mwyn trefnu e-ffrind. Rhywun dych chi'n gallu siarad â nhw ymlaen llaw i ddysgu am Gaerdydd cyn i ti ddod.

Cysylltwch â fi ar Condons@cf.ac.uk os dych chi eisiau e-ffrind neu am fwy o wybodaeth am Gwrs Haf Caerdydd 2016.



# Blwyddyn arbennig



Bydd 2015 yn flwyddyn a fydd yn aros yn y cof am flynyddoedd i ddod. Bu'n brofiad anhygoel bod ym Mhatagonia yn ystod y flwyddyn bwysig hon a bod yn rhan o'r dathliadau. Ond bydd 2015 yn flwyddyn fythgofiadwy i mi am reswm arall, gan mai ym mis Mehefin eleni y ganwyd f'annwyl fab Llewelyn.

Petai rhywun wedi dweud wrthyf rai blynyddoedd yn ôl y buaswn yn briod ag Archentwr ac yn magu plentyn ym Mhatagonia bell, buaswn ddim wedi credu'r peth. Ond newidiodd fy mywyd yn gyfangwbl ar ôl gweld yr hysbyseb honno ar wefan y Cyngor Prydeinig nôl yn 2009. Treuliais y flwyddyn ganlynol yn gweithio yn Esquel a Threvelin. Fel un sy'n agos at ei theulu, roedd Cymru'n fy ngalw unwaith yn rhagor ac felly mynd nôl wnes i am gyfnod ar ddiwedd y flwyddyn honno cyn i *rywun* fy ngalw a'm perswadio i ddychwelyd i'r Wladfa!

Edrychaf ymlaen yn fawr iawn at gyflwyno Llewelyn i'm teulu a'm ffrindiau yng Nghymru flwyddyn nesaf. Oherwydd salwch yn y teulu does dim modd i'm rhieni ddod allan yma ar hyn o bryd, ond byddwn yn croesawu fy chwaer flwyddyn nesa a bydd Llewelyn yn siŵr o gael digon o faldod wrth Anti Elena! Yn y cyfamser, hir oes i *WhatsApp, Facetime* a *Skype*!

Byddwn yn treulio'r Nadolig a'r flwyddyn newydd gyda theulu a ffrindiau yn Nhrevelin eleni - fy Nadolig cyntaf ym Mhatagonia, a dw i'n siŵr y bydd yn un i'w gofio! Gan y byddwn yma am y rhan fwyaf o'r gwyliau, os oes rhywun am gyfarfod er mwyn sgwrsio'n y Gymraeg dros de/goffi/hufen iâ mae croeso i chi gysylltu â fi. Buaswn yn hapus iawn i wneud ac mae Llewelyn wrth ei fodd yn clywed y Gymraeg!

Dymunaf Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Heddychlon a Bendithiol i bob un ohonoch.
Cofion cynnes, Eluned Owena x

Mae merched Esquel wrth eu boddau yn barddoni gyda Iwan Madog.



## Cant a hanner

Beth oedd ar eu pennau i ddod i wlad mor bell
Cychwyn yn llawn gobaith i edrych am fyd gwell

Diniwed? Mentrus? Cadw'r iaith?
A chael dim ond sychdwr a dirgelwch y paith

Dechrau gyda dim, ymdrechu bob dydd
Dygnwch a ffydd, aberthu i gael bywyd rhydd

Ar ol yr holl flynyddoedd, beth byddent yn meddwl ohonom ni nawr
Tybed ein bod wedi gwireddu'r antur fawr

Ond beth bynnag, dyn ni yma o hyd
Yn canu ac yn siarad yr heniaith ochr arall y byd










# Llongyfarchiadau Sara



Y Traethawd

Y WLADFA DDOE, HEDDIW AC YFORY

**Ddoe: O'r Glaniad i'r Canmlwyddiant**

Yr 28ain o fis Gorffennaf, 1865, glaniodd yr iaith Gymraeg yn y Bae Newydd, De America, ar ôl dau fis o fordaith. Daeth yr iaith gyda nifer o deuluoedd – gwerinwyr Cymreig oeddynt, dan arweiniad pobol fel Lewis Jones, Edwin C. Roberts, Abraham Mathews a Richard J. Berwyn. Roedd y siaradwyr hyn am gael bywyd gwell iddyn nhw eu hunain a'u plant, a hynny heb golli eu mamiaith, eu diwylliant a'u ffydd. Dyma bobl ifanc, mentrus, hyderus, gyda gweledigaeth fawr, na lwyddodd sychder y paith i'w trechu. Ar ddaear sych Patagonia, eginodd yr iaith a ddaeth o Gymru yn ysgrifenedig yn y Beiblau, ac yn llafar yn y genau.

Geiriau bach hen iaith na ddiflannodd, oherwydd iddynt gael eu hysgrifennu ar lechen rhwng y drain ac yna mewn caban llong a ddrylliwyd ar y traeth yng ngheg Afon Chubut. Yn y caban hwnnw daeth y geiriau'n fyw i blant a aned yn y wlad newydd. Plant a holodd pam a sut:

O b'le y daethoch yma?
O! d'wedwch i mi, 'nhad;
A pham y myn'soch Wladva
Ym Mhatagonia wlad?

A chawsant yr ateb yma:

O hen vynyddoedd Cymru,
Dros voroedd llydain pell,
I gadw'n hiaith i vynu,
A gwneuthur cartrev gwell.

Richard J. Berwyn




**Gwych darllen gwaith strwythiedig Sara Borda Green yn y cyfansoddiadau eleni. Cawn draethawd a rhaniadau a diffiniadau clir i´r Canmlwyddiant a hanner,ac ýfory´a nawr ... i ble? Gweler uchod y darn cyntaf yn son am y dechrau yn 1865 pan laniodd yr Iaith Gymraeg yn Ne America, Cawn hanes y cymeriadau, y digwyddiadau a´r dylanwadau dros y blynyddoedd. Sonnir am ´heddiw´- Cymru yn darganfod y Wladfa eto a chyfraniad yr ymwelwyr , y tiwtoriaid , y cymwynaswyr newydd. Ac yna ýfory´? Bydd rhaid cryfhau addysg ddwyieithog a ´Rhaid i´r dwylo weithio´n galed heb anghofio chwaith bod rhaid i´r geg ddal i ynganu geiriau iaith y ddraig´.**

## Geirfa Nadolig

| | | | |
|---|---|---|---|
| goleuni | luz | Nadolig Llawen | Feliz Navidad |
| geni | nacimiento | anrheg<br>anrhegion | regalo/s |
| preseb | pesebre | gweithgareddau | actividades |
| bugeiliaid | pastores | seren | estrella |
| doethion | reyes magos | dathlu | celebrar |











## Casgliad y Werin – Trevelin ac Esquel

Fel rhan o ddathliadau'r flwyddyn fawr hon yn hanes Y Wladfa, teithiais i gyda Dafydd Tudur ar ran Casgliad y Werin i Batagonia dan nawdd y Cyngor Prydeinig, ac yn ymuno gyda ni ar y daith oedd Eifion Williams o Flaendulais. Amcan y daith oedd cynnig hyfforddiant digideiddio a gosod dwy Orsaf Treftadaeth Ddigidol i hybu pobl i rannu eu hanes trwy wefan Casgliad y Werin.

Mae gwefan Casgliad y Werin yn cynnig llwyfan i bawb ddathlu hanes a threftadaeth Cymru trwy rannu eu ffotograffau, recordiau sain a fideo, dogfennau neu straeon. Mae'r Gorsafoedd Treftadaeth Ddigidol rydym yn sefydlu, sef gliniadur a sganiwr yn caniatáu unrhyw un o'r gymuned sydd ddim gydag offer eu hunain allu digido eu deunydd a'i rannu yn ddigidol trwy'r wefan.

Wedi i ni lanio yn Buenos Aires ar y 12fed o Fedi a chael cyfnod o weithio yno ac yna yn y Dyffryn, roedd hi'n amser i ni deithio dros y paith. Ar yr 22ain dechreuodd ein bore wrth weld y wawr yn torri dros fynyddoedd yr Andes, pleser bythgofiadwy ar ôl sawl awr mewn bws!

Cafwyd croeso bendigedig yn adeilad newydd Amgueddfa Trevelin ac yng Nghanolfan Cymraeg Esquel gan bawb fynychodd ein sesiynau. Daeth yn amlwg roedd dymuniad awchus gan bobl i ledaenu hanes ardaloedd Trevelin ac Esquel ac i sicrhau fod y dreftadaeth yma yn cael ei warchod a'i drysori. Rydw i yn siŵr bydd y brwdfrydedd yma yn parhau yn dilyn y dathliadau mawr eleni a bod Casgliad y Werin ac yr offer sydd wedi ei adael yn y gymuned yn chwarae rhan fawr i arddangos a dathlu hanes yr Andes.

Hoffem ddiolch i Clare Vaughan, Iwan Madog ac eraill am gyfieithu ac ein helpu yn ystod y sesiynau cafwyd yn Trevelin ac Esquel ac i bawb wnaeth cymryd rhan yn ystod ein hymweliad.


Ar brynhawn y 24ain roedd cyfle i bobl ddod a deunydd i'w digido ac ymarfer defnyddio'r offer yng Nghanolfan Gymraeg Esquel. Cawsom ein gwirioni yn llwyr gyda beth ddaeth Silvia Elvina Williams gyda hi'r prynhawn hwnnw. Yn ei gofal oedd llwyth o lawysgrifau oedd yn perthyn i bapurau personol Thomas Benbow Phillips a oedd yn cynnwys papurau yn ymwneud a sefydlu'r Wladfa Gymreig ym Mrasil ym 1850. Roedd cymaint o dudalennau i'w digido caniataodd Silvia i ni fynd a nhw yn ôl i La Chacra i barhau gyda'r gwaith yn hwyr mewn i'r nos. Roedd hi'n fore bach erbyn i ni orffen digido'r papurau yma a byddant i gyd ar gael i'w gweld ar Casgliad y Werin. Tydi hanes Thomas Benbow Phillips ddim yn hysbys pan mae pobl yn meddwl am hanes y Cymry yn De America, ond drwy rannu'r deunydd yma yn ddigidol bydd yn galluogi pawb ddysgu am ei hanes a'i ymdrechion o geisio sefydlu 'Nova Cambria' (Cymru Newydd). Mae hefyd llawer o sylw wedi cael ei roi yma nôl yng Nghymru i'r deunydd yma oherwydd ei werth hanesyddol, ac mae siŵr o fod llawer o straeon a deunydd eraill sydd heb weld golau dydd yn ysu i'w ddadorchuddio!

Roedd yn brofiad bythgofiadwy siarad gyda chymaint o bobl a dysgu mwy am hanes yr Ardal tra buon yno. Mae cymaint o uchel bwyntiau i dynnu sylw ato; cael taith tywys trwy ardal Trevelin gyda Mary Green, ymweliad a Molino Nant Fach, swper blasus a sgyrsiau difyr yn ffermdy'r Greens a cherdded i gopa Cerro La Cruz ar ein diwrnod olaf. Roedd yn amlwg fod balchder mawr yn y cymunedau o'i gwreiddiau Cymreig a'r cyfoeth o straeon am yr hanes sydd yn parhau hyd heddiw. Gobeithio gwelwn fwy o'r hanesion hyn yn teithio ymhellach na chysgod y mynyddoedd ac yn cael ei rannu gyda'r Hen Wlad a thu hwnt.

www.casgliadywerin.cymru

Berian Elias





# Cyfarfod Nadolig en Nhrefelin

Cynhaliwyd y cyfarfod bryuhawn dydd Nadolig, a bu y capel yn orlawn o'r rhai a ddaeth ynghyd i wrando y plant, a oeddynt wedi eu paratoi yn dda iawn gan Miss Ann Griffiths, Mrs T Freeman, a Mrs Gwener Jones.

Ymhlith yr eitemau cafwyd y canlynol:

1— Ton gan y plant, "Enw'r Iesu"
2— Adroddiadau, Elved, Cerli a Marvel.
3— Can, Manon Lewis.
4— "Caru'r Iesu" y plant lleiaf.
5— "Uno wnawn a'r Nefol Gôr", Delia, Maria, Liliana, Manon a Delia Cristina.
6— Adroddiadau gan Primrose a Gladys Maria.
7— Can gan y plant "O canwch yn llon".
8— Adroddiadau gan Emyr a David.
9— Deuawd, Norma ac Elvira "Canwn oll yn llon"
10— Can actol, "Ar y ffordd fawr"
11— Can gan Delia Maria.
12— Adroddiadau gan Griselda a Liliana.
13— Tôn gan rai o'r plant. "Eda"
14— Gair gan y Parch D. J. Peregrine.
15— "Bethlehem" Delia Maria, Liliana, Delia Cristina a Silvia.
16— Pedwarawd, Elvira, Eldeg, Edith ac Estercita.
17— Adroddiad gan Mario
18— Can actol, "Yr ambarel"
19— Can, Mirta Williams.
20— Deuawd a chydgan gan y plant, "Mae Iesu Grist yn fugail"
21— Cân, "Y meysydd sydd yn wyn" Irma, Norma a Gladys
22— Adroddiadau gan Cristine ac Elfed.
23— Can gan y plant. Iaith y greadigaeth"
24— Adroddiad gan Irma Owen
25— Parti, "Y Dawel Nos"

Llywyddwyd ac arweiniwyd y cyfarfod gan y Br Emrys Hughes o Esquel.

## Erthygl o'r Drafod –Ionawr 1960

Wrth ddarllen hen Drafod oedd wedi ei chadw mewn drôr ers amser maith, deuthum ar draws nodyn dan y penawd "Cyfarfod Nadolig yn Nhrefelin"… (ia gyda *f* ac nid *v*)!

Pwy oedd y plant oedd yn cymryd rhan? Wel pobl adnabyddus fel Manon yn canu unawd. Mae Manon yn byw yn Córdoba ers blynyddoedd ond yn adnabyddus i bawb yma. Yna cawn ddeuawd gan Elvira a Norma, mae Norma Hughes yn byw yn Buenos Aires ac yn cael ei galw pan mae angen Cymraes i'n cynrychioli yn y brifddinas, ac mae Elvira Mosley yn weithgar yng Nghymdeithas Cymru Ariannin yn yr Hen Wlad ac yn ysgrifennu yn achlysurol i'r Drafod. Hefyd 'roedd adroddiad ar y cyd rhwng Griselda a Liliana, mae Griselda Owen yn byw yma ac mae Liliana Freeman ar hyn o bryd yn llywyddu Cymdeithas Dewi Sant Comodoro Rivadavia ac yn cynnal dosbarthiadau Cymraeg yno. Yna mae Gladys, Irma a Norma y canu "Mae'r meysydd yn wyn", wel mae Irma Owen yn byw yma hefyd ac yn dal i ganu yn côr Seion ar hyd y blynyddoedd a Gladys Jones yn gyfrifol am y dosbarthiadau Cymraeg ers iddynt gychwyn yn y Ganolfan yn Esquel gyda Chynllun yr Iaith Gymraeg.

Cawn enwau genod eraill fel Cristine, Mirta Williams, Delia Cristina, Primrose, Eldeg, Estercita ac Edith, a'r bechgyn sef Elved, Charli a Marvel, Emyr a David. Plant yr adeg hynny sy'n oedolion adnabyddus i bron pawb ohonom heddiw ddydd.

Mae rhai wedi ein gadael erbyn hyn fel Delia María Williams a Mario Jones, a hefyd y gŵr oedd y llywddu'r cyfarfod sef y Br. Emrys Hughes, Esquel a'r gweinidog a oedd yn rhoi'r neges sef y Parchedig D.J.Peregrine. Erys atgofion annwyl amdanynt.

Mae'n amlwg nad yn ofer bu llafur Ann Griffiths, gyda Gwener Jones a Gwladys Freeman yr adeg hono yn dysgu'r plant yn Bethel, Cwm Hyfryd i ganu, adrodd ac actio mewn drama Nadolig yn ein heniaith. Diolch iddynt!

Mary Green

# Aberdâr






Cynhaliwyd digwyddiad llwyddiannus yng nghapel Siloa Aberdâr fore Sadwrn 28 Tachwedd. Daeth tyrfa deilwng ynghyd ar fore tymhestlog iawn. Rhoddodd David Leslie Davies groeso i bawb ac yna ychydig sylwadau am gefndir yr ymfudwyr a ymadawodd â'r ardal ym 1865. Wedyn canodd Côr Cytgord yn hyfryd iawn hen emyn ymadawol a ganwyd yno ym 1875 cyn i fintai o Gwmaman fynd i'r Wladfa ac ymsefydlu gyda'i gilydd ac yng nghwmni eu cyn-weinidog (John Caerenig Evans) gan ffurfio cnewyllyn poblogaeth Y Gaiman.

Yna siaradodd Elvira ac Elvey am eu hynafiaid a ymadawodd â'r cylch i hwylio ar y 'Mimosa' a chyflwynodd disgyblion Ysgol Gyfun Rhydywaun eu heitemau yn gampus: adroddiad y gerdd 'Yr Afon' gan Mary Green a dwy gân oddi wrth unawdydd ifanc a llais hyfryd, ganddi, Megan Jones, Cwmdâr. Nesaf, cafwyd gair gan Elfed Bowen (is-lywydd) ar ran Cymdeithas Hanes Cwm Cynon a Susan Jenkins (golygydd) ar ran pwyllgor y papur bro *Clochdar* cyn i D.L. Davies ddiolch yn ffurfiol wrth bawb a gwahodd Elvey ac Elvira ymlaen i ddadorchuddio'r plac fel uchafbwynt y bore.

I derfynu, canwyd 'Hen Wlad fy Nhadau' yn rymus, mewn pedwar llais cyfoethog, gan y dyrfa gyda Marcus Williams (pennaeth Cerdd yn Rhydywaun) yn arddangos mawredd organ-bib y capel. Wedyn aeth pawb am de a danteithion i'r festri. Bu llawer yn ddigon caredig i ddweud y bu'r achlysur yn bleser a mwynhad mawr.

D. L. Davies





# 25 Tachwedd 2015

# Dathlu Pen blwydd Trevelin





Diwrnod i'w gofio'n wir yw Tachwedd y 25ain yng Nghwm Hyfryd,
wrth droed yr Andes, gan mai dyna pryd y gyrhaeddodd criw yr Arglwydd Fontana i Gwm Hyfryd am y tro cynta a gwersylla ar lan nant a'i bedyddio ar unwaith yn Aber Gyrants gan fod cyrants yn tyfu ar y lan!
Pob blwyddyn mae maer Trevelin, gyda llawer iawn o ddisgynyddion y Rifleros â thrigolion y dre yn esgyn i ben Craig Goch, lle cafodd y fintai yr olygfa gynta o'r Cwm a'i alw yn Gwm Hyfryd oherwydd y prydferthwch a oedd o'u blaen. Dyma sut y dywed un o brif arweinwyr y fintai, John Daniel Evans,un o blant y Mimosa, a elwyd yn "El Baqueano", yn ei ddyddlyfr: "a chododd pawb ohonom yn weddol fore a gwelsom y fro dlos odiaeth, pant a bryn dan gwrlid tew o farrug gwyn, a'r Cymro yn gweiddi allan ar dop ei lais, 'Wel dyma Gwm Hyfryd! ¡Qué Valle Hermoso! Meddai'r Archentwr yntau', a rhoddwyd genedigaeth anfarwol i'r enw 'Cwm Hyfryd' hyd y dydd heddiw."
Y mae dros gant yn dringo ar gefn eu ceffylau yn flynyddol, ond cerdded mae´r gweddill ohonom.

Yn y flwyddyn da ni´n dathlu/cofio 150 o flynyddoedd ers i´r Mimosa gyrraedd traeth Porth Madryn, da ni´n dathlu hefyd 130 ers i Fontana a´r criw o Gymry ddarganfod Cwm Hyfryd yn ngodre´r Andes.

I ddechre´r dathlu cawsom gyngerdd yn Neuadd y Dref , wedi ei drefnu gan y Gymdeithas Gymraeg, ar noson y 24 gan gôr y dre, criw cyd adrodd gyda´r ddwy gerdd enillon nhw yn y Steddfod, dawns glocsio gan Iwan, Sara a Dianne, a dawns werin gan griw Ysgol GYMRAEG. Cawsom gyfle i gwrdd a llawer cyfaill, bron na allwn ddweud fod yna fwy o Gymry´n bresennol na thrigolion y dref!

Gan fod cymaint o Gymry Cymraeg yno roedd yn hyfryd cael Iwan ar y llwyfan i adrodd ´Rhosod gwynion´ a Sara ´Noson Loergan Patagonia´ gan

Arel H de Sarda, enillwyr yn Eisteddfod y Wladfa dechre´r mis.

Mwynhau swper wedyn yn nghwmni Lois Dafydd mewn bwyty lleol, a deall ei bod yn hollol rhugl yn ei Sbaeneg!

Roedd y diwrnod canlynol yn ddiwrnod mawr, areithiau, blodau wrth droed Cofeb Fontana a´r criw a gorymdaith o gynrychiolwyr o ysgolion a gwahanol sefydliadau fel y ffermwyr, dynion tân a´r gauchos. Roedd un criw wedi dod yr holl ffordd o Fadryn ar gefn ceffylau i fyny i´r Andes. Ymysg y gwesteion roedd maer tref Aberteifi sef y cynghorydd John Adams Lewis. Cyflwynwyd un o luniau´r arlunydd Aneurin Jones o Aberteifi gan ei fab Meirion Jones. Bydd y llun yn cael ei arddangos yn y Felin Fawr Trevelin.

Y rhai cyntaf i ddod heibio´r awdurdodau oedd yr Ysgol Gymraeg, roedd y faner yn cael ei chario gan Eluned Jones, tiwtor Cymraeg am y flwyddyn yma yn Nrhevelin a chriw mawr o blant mewn gwisgoedd traddodiadol yn gwmni iddi, a wedyn daeth pobol hyn yn eu gwisgoedd traddodiadol hefyd.

Te yn y pnawn wedi ei drefnu gan hanner dwsin o wragedd sy´n arbenigo ar baratoi y wledd yma. Llond byrddau o gacennau a´r tebot yn cael ei lenwi fel bo´r angen.

Cawsom ddiwrnod hyfryd

Alwen Green.

Llongyfarchiadau i Ryan ar ennill Ysgoloriaeth Tom Gravell yng Ngholeg Llanymddyfri ym mis Ionawr 2016. Dymuniadau Gorau.



## O'r ysgolion................................. adeg y Nadolig

### Ysgol Gymraeg Yr Andes Esquel







Mae pawb yn gwybod fod cyfraniad cyson Hazel Charles Evans i hyrwyddo a datblygu perthynas agosach rhwng yr Andes a Chymru wedi bod yn allweddol i gadw'r traddodiadau a'r Iaith yn fyw ers blynyddoedd bellach. Mae´n fwriad ganddi roi tlws a swm o $50 dollar i´r disgybl mwyaf addawol o ran siarad Cymraeg sy´n mynychu dosbarthiadau Cymraeg gan ddechrau eleni. Bydd yn gwneud hyn dros y pum mlynedd nesaf.

Bu'n hyfryd ymuno a phawb i glodfori Disgyblion Ysgol 24 Luis Fontana. Achlysur a greodd argraff wresog ar bawb gan ein bod fel tiwtoriaid yn hollol gytun fod Tlws Disgybl y Flwyddyn 2015 Esquel yn cael ei gyflwyno i Gonzalo Cardenas ac yna cymeradwyaeth i Iara Martinez am yr ymdrech orau. Gobeithio bydd y ddau yn dilyn dosbarthiadau yn y Ganolfan y flwyddyn nesaf.









*Cyflwynwyd tystysgrifau i bawb ar ddiwedd tymor a diolch am noson hwylus gyda´n gilydd yn y Ganolfan..*




## Cyfweld bechgyn arbennig
## Ysgol Gymraeg yr Andes Esquel.



Pwy wyt ti?
Jeremias Herrera dw i.
Sut wyt ti?
Dw i'n dda iawn diolch.
Ble wyt ti'n byw?
Dw i'n byw yn Esquel gyda Mam,dad a´m tri brawd.
Dyma ychydig o gefndir Jeremias.
Ces i fy ngeni ar yr 20fed o Ebrill 2005 yn ysbyty Esquel.
Dw i´n mynd i Ysgol 76.
Dw i´n mynd i´r ysgol am 8 o´r gloch y bore tan hanner dydd.





Dyma yn fras amserlen yr wythnos yma:
Dydd Llun - Bues i am dro gyda´r teulu.
Dydd Mawrth - Bues i´n rhedeg.
Dydd Mercher - Bues i´n astudio yn yr ysgol.
Dydd Iau - Bues i´n astudio.
Dydd Gwener - Bues i´n astudio Cymraeg a Llenyddiaeth.
Dydd Sadwrn - Bues i´n astudio Cymraeg a siarad.
Dydd Sul - Bues i´n chwarae pel droed.

Hoff bethau Jeremias .
Dw i'n hoffi coginio, dawnsio a rygbi.
Dw i'n hoffi haf yr Andes.

Llyfr : Asquerosologia. Ffilm : La Ladrona de Libros.
Bwyd : Sbageti, pizza a hufen ia.





Pwy wyt ti?
Maximiliano Herrera dw i.
Sut wyt ti?
Dw i'n ardderchog.
Ble wyt ti'n byw?
Dw i'n byw yn Esquel gyda Mam,dad a´m tri brawd Imanol, Lucas Ezequiel a Jeremias.
Dyma ychydig o gefndir Maximiliano.
Ces i fy ngeni ar yr 25ain o Orffennaf 2002 yn ysbyty Esquel.
Dw i´n mynd i Ysgol 23 Marzo 7722.
Dw i´n mynd i´r ysgol yn y prynhawn am hanner awr wedi un tan hanner awr wedi chwech.

Dyma yn fras amserlen yr wythnos yma:
Dydd Llun - Bues i am dro yn y car.
Dydd Mawrth - Bues i´n dawnsio.
Dydd Mercher - Bues i´n astudio Etica a Mathemateg.
Dydd Iau - Bues i´n protestio.
Dydd Gwener - Bues i´n astudio Cymraeg a Llenyddiaeth.
Dydd Sadwrn - Bues i´n astudio Cymraeg a theatr.
Dydd Sul - Bues i´n cysgu.

Hoff bethau Maximiliano .
Dw i'n hoffi rhedeg, chwarae pel droed a rygbi.
Dw i'n hoffi haf yr Andes.

Llyfr : La caban del Tio Tom.
Bwyd : Asado, papa fritas a jam llaeth.



# Dathliadau diwedd tymor yn Ysgol Gymraeg yr Andes Trevelin ac Ysgol y Cwm





Da iawn chi.

Karin Cortínez, Megan Iwan, Hevin Green, Marisol León, Cristian Williams a Dianne Green yw Criw'r "Arddegau" Ysgol Gymraeg Trevelin, ac mae nhw'n bobol sydd wedi bod yn brysur iawn yn ystod y flwyddyn yma! Ar wahan i fynd i'r ysgol uwchradd, mae nhw'n dod i'r dosbarth Gymraeg bob nos Fercher. Yno dyn ni wedi dechrau unedau Wlpan, ond hefyd dyn ni wedi chwarae gemau i ymarfer yr iaith, a dysgu i adrodd a chydadrodd cerddi fel Ty Te, T Tew, gan Gwyneth Glyn, a Miri'r Môr, gan Mererid Hopwood. Hefyd dyn ni wedi bod yn gwylio cyfres TIR (diolch i Roger Williams o Joio, a wnaeth rhoi y DVDs ar ddechrau'r flwyddyn) i ymlacio gyda phaned o de a bis-gedi ar ôl y dosbarth.

Yn ychwanegol mae nhw wedi cymryd rhan weithiau yn y rhaglen radio Jam Llaeth, wrth recordio jôcs yn Gym-raeg neu dewis a chyflwyno caneuon, a pob nos Fawrth mae nhw wedi ymarfer Dawnsio Gwerin gyda Jessica Jones. Rhwng adrodd, cydadrodd, cyfieithu a dawnsio, mae grwp yr Arddegau wedi bod mewn sawl digwyddiad yn ystod y Canmlwyddiant a Hanner, sef Eisteddfodau, cyngerddau, Gwyl y Glaniad, Penblwydd Trevelin, ac yn y blaen.

Ond rhaid dweud, heblaw hynny, yn ystod yr wythnos mae nhw'n gwneud gweithgareddau eraill! Sef nofio, chwarae pel foli a chwarae ffidil a soddgrwth. Mae'n bendant eu bod nhw'n bobol cyfrifol a llawn egni i wneud pob math o bethau ac i helpu bob tro mae 'na angen. Dyna'r rhesymau tu ôl cael eu dewis fel Dosbarth y Flwyddyn eleni, a dyna pam mae wedi bod yn fraint i Iwan a fi cael eu dysgu nhw eleni… Llongyfarchiadau!

Sara Borda Green

Dwy noson yng Nghapel Bethel yn dathlu diwedd Blwyddyn y Canmlwyddiant a Hanner.








# Ysgol y Cwm

Mawr yw´r diolch am roddion lu yn ystod y tymor yma eto.

Cyflwynwyd arian gan Morfudd Slaymaker, Elma Phillips a Gwynfor ar ran ffrindiau Llambed ac yna yn ystod ymweliad maer tref Aberteifi sef John Adams Lewis cyflwynwyd arian ar ran y pwyllgor gefeillio. Mawr yw ein gwerthfawrogiad am roddion niferus gan ymwelwyr cyson.










## Chwilair Lliwiau

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| d | f | u | m | b | i | n | m | y | ff | i | j | a | glas<br>melyn |
| u | g | l | c | u | th | a | g | l | a | s | t | r | coch<br>gwyrdd |
| r | th | p | t | h | n | s | w | g | h | n | c | s | oren<br>du |
| dd | g | h | w | m | e | l | y | n | l | b | ch | m | gwyn<br>pinc |
| y | p | o | l | rh | o | y | r | s | ng | o | t | l | |
| h | g | b | f | m | p | t | dd | p | h | r | w | o | |
| d | e | h | s | d | i | r | a | f | g | e | dd | p | |
| r | s | g | w | y | n | b | f | e | d | n | l | u | |
| ll | a | c | f | dd | c | o | ch | w | s | h | p | i | |


# Llyfrau gwerthfawr y Canmlwyddiant a Hanner




## Dyddiadur Teulu Freeman



Daeth William Freeman a Mary Ann Thomas o Bennsylvania yn yr Unol Daleithau i Batagonia ar ôl ymfudo o Gymru gyda'u teuluoedd cyn hynny, ac wedyn dyma nhw yn codi eu pac unwaith eto a symud i fyw o'r Dyffryn i Gwm Hyfryd yn yr Andes. 'Roedd ganddynt amryw o blant erbyn hynny a ganwyd un arall ar y ffordd sef Mary Peithgan.
Mae rhan o'u hanes wedi ei gofnodi yn y dyddiaduron ysgrifenodd y ddau tra'n teithio ar hyd y paith. William yn gyntaf yn 1886/87 gyda dynion eraill yn agor y ffordd ac yn cychwyn yr ymsefydliad yn y Cwm, ac yna Mary Ann yn gwneud nodiadau o'r digwyddiadau dyddiol ar y ffordd yn ystod y tri mis ar y daith dros y peithdir o'r Dyffryn I'r Andes, mewn wageni gyda'r plant a theuluoedd eraill, yn y flwyddyn 1891.
Gan fod y ddau ohonynt wedi eu magu yn America, Saesneg oedd eu hiaith ysfgrifennedig, a dyna iaith y ddau gofnod. Gofynodd Glenys Owen i mi eu cyfieithu i'r Sbaeneg fel bod ei phlant a gweddill y teulu yn gallu eu darllen.
Glenys ydy merch ieuengaf y diweddar Constance Freeman de Owen a hithau, Connie, oedd merch ieuengaf William a Mary Ann.
Mae'r llyfr bach treuliedig yn drysor ym meddiant Glenys, ac nid hawdd ar brydiau fu'r gwaith o ddehongli yr hyn a ysgrifenwyd mewn pensil yn ystod y ddwy daith, ond difyr dros ben oedd dilyn eu hynt a'u helyntion wrth wireddu eu breuddwydion ac agor y wlad newydd sydd erbyn hyn, yn gartref i ni ynghyd a llawer o'u disgynyddion.





## Etifeddiaeth Deg
## Robin Gwyndaf



Dyma lyfr a elwir yn "gyfrol swmpus" gan ei fod mi dybiaf, yn ddisgrifiad da ohono. Mae ynddo llawer o luniau hen a newydd a llawer o wybodaeth.
I ddecharu cawn ddyddiadur Blodwen Camwy, yn sôn am ei hymweliad cyntaf a'r Andes yn ferch ifanc yn 1914/15, ac yna ail ran pan 'roedd hi'n ôl yn byw a gweithio yn y Dyffryn. Wedyn mae ysgrifau ei chwaer Elisa Dimol, y mwyafrif yn gystadlaethau yn Eisteddfod y Wladfa, Trelew. Yn dilyn cawn ysgrifau ei merch hithau, sef Gweneira Davies de Quevedo. Mae llawer o hanes wedi ei gofnodi yn yr ysgrifau hyn ac sydd yn dod o "lygad y ffynnon".
Ceir hefyd ran dan y penawd "Dathlu canmlwyddiant y Wladfa" ac yn olaf ""Diogelu a Hyrwyddo'r Etifeddiaeth-2015".
Daeth yr awdur, Robin Gwyndaf ar ei ymweliad cyntaf yn 1965 gyda'r Pererinion i ddathlu'r canmlwyddiant, ac yr oedd yn gyfarwydd a hanes y Cymry ym Mhatagonia yn barod am ei fod wedi darllen llyfrau Bryn Williams, fel "Y March Coch" a "Bandit yr Andes" a hefyd am ei fod wedi clywed Mrs Eiddwen Humphreys yn sôn am ei phlentyndod yn y Dyffryn.
Daeth yr awdur ar ymweliad unwaith eto gyda'i wraig Eleri i ddathlu'r cant a hanner a chawson gyfle i'w croesawu a diolch iddynt am ddod a'r gyfrol yma yn anrheg i lawer ohonom. Diolch yn fawr i chi, Robin Gwyndaf!.

→




# Pethau Patagonia



Cafodd y gyfrol hon ei chyhoeddi yn 1984 a'i golygu y pryd hynny gan Marian Elias. 'Roedd yr awdur yn gyfarwydd a siarad gyda chyfeillion fel "Radio Ham" ar adeg pan nad oedd modd i gyfathrebu heblaw trwy lythyrau, a cymerai y rhain wythnos neu ddwy ar y ffordd fan lleiaf.

Wrth sgwrsio fel hyn ar y radio, cafodd ei ffrindiau (fel Idris Jones, Llur Gruffudd a Jeff Diplock) yng Nghymru llawer o wybodaeth am fywyd yn y rhan yma o'r byd, a ffrwyth hynny yw rhan helaeth o'r atgofion yma. Mae yn dechrau wrth sôn am Taid a Nain Berwyn a ddaeth ar y Mimosa a hanes y teulu. Ceir manylion am fywyd ar y "camp" a'r fferm, am adar ac anifeiliaid gwyllt ac anifeiliad gwaith. Sonir hefyd am y brodorion hwythau ac am fywyd yn gyffredinol.

Erbyn 2015 'roedd Esyllt Roberts yn byw yn y Gaiman ac yn briod efo Christian Lewis, sef ŵyr i Uriena, cyfneither Fred, a dyma hithau yn mynd ati i gyhoeddi ail fersiwn o'r gyfrol gyda rhai penodau a lluniau yn ychwanegol a diwyg a lluniau newydd.

Yn y rhan a ychwanegwyd cawn ddetholiad o ddyddlyfr personol yr awdur, pan yn fachgen ifanc yn ystod 1931 a 1933. Hefyd mae Alwen yn sôn am "Dad" a Sara yn hel atgofion am "Taid", ac mae'r Athro RobertOwen Jones yntau yn rhannu ei brofiadau wrth ddod i adnabod y teulu yn ei fynych ymweliadau a'r Wladfa i astudio tafodiaeth y lle yn gyntaf, ac yna fel Arolygwr y Cynllun Iaith.

Diolch i Marian am y gwaith gwreiddiol ac i Esyllt am y gyfrol newydd!

Mary Green











Anodd credu ein bod ni nôl yng Nghymru fach ers dros fis bellach! A dwi'n dal heb ddod dros y daith fythgofiadwy! Cawsom amser hollol arbennig yn Esquel ac roedd y cyfan wedi bod yn gymaint o agoriad llygad-roedd clywed y plant ifanc iawn yn Ysgol y Cwm yn dweud geiriau cymraeg yn anhygoel! Mae'r Rafftio dŵr gwyn lawr yr Andes yn dal yn fyw yn y cof ac roedd y golygfeydd yn wych! Roedd hi'n hyfryd gweld Eluned ac Euros sy'n ffrindiau teulu i fi ac rydym i gyd yn ddiolchgar iawn i Eluned am ei holl gwaith tra'n bod ni allan yn Y Wladfa. Roedd yr asado ar Fferm y Greens yn flasus iawn a chawsom ddiwrnod llawn hwyl yno! Diolch i bawb unwaith eto a dwi'n gobeithio y byddaf yn medru dychwelyd rhywbryd yn y dyfodol!

**TAITH YR URDD 2015**

**Eurgain Wyn**












## Gwirfoddolwyr 2015

Wrth feddwl yn ôl dros y flwyddyn sydd yn brysur ddirwyn i ben, rhaid cydnabod gwaith pawb sydd wedi bod yng nghlwm wrth y canolfannau eleni a diolch iddynt am eu dyfalbarhad mewn amgylchiadau andros o brysur: Eluned Jones, ein swyddog o Gymru, Iwan Madog ein pâr arall o ddwylo eleni, y timau lleol o athrawon, tiwtoriaid a chefnogwyr sydd yn ormod i'w henwi yn unigol ond maen nhw wedi bod yn gweithio ers sawl blwyddyn mewn llawer achos. Yn ogystal â'r rheiny hefyd rydym wedi crosawu sawl gwirfoddolwr o Gymru yn ystod y flwyddyn ac mae wedi bod yn ddiddorol gweld beth oedd ganddynt i'w gynnig i ni.

Mae gwirfoddolwyr yn gallu cyfrannu mewn sawl ffordd:

- Trwy fod yn 'bâr arall o ddwylo' yn y dosbarthiadau yn enwedig efo plant bach.
- Trwy gyfrannu sgil arbennig sydd ddim gyda ni yn ein timau (gwybodaeth arbennig, chwarae offeryn e.e)
- Trwy roi cyfle i fyfyrwyr ail-iaith siarad efo pobl iaith gyntaf o'r Hen Wlad.
- Trwy wneud gwaith fyddai'n anodd i ni ffeindio amser i'w wneud (troi fideos i DVD e.e.)
- Trwy gynnal gwasanaethau yn Gymraeg yn y capeli.
- Trwy rannu gwybodaeth am ddatblygiadau ym myd dysgu yng Nghymru.

Yn ôl ar ddechrau'r flwyddyn ddaeth Frank Holloway; roedd Frank wedi dod i'r Wladfa fel twrist ond wedi mwynhau'r profiad cymaint penderfynodd ddod yn ôl ar ôl ymddeol a gwnaeth waith andros o ddifyr ar hanes Cymru a gafodd eu rhannu nid yn unig gyda myfyrwyr y dosbarthiadau Cymraeg ond gyda disgyblion Saesneg ac ysgolion lleol y fro. Profiad unigryw ac rydym yn ddiolchgar iawn am broffesiynoldeb a pharodrwydd Frank i weithio gyda ni.

Hefyd croesawon ni Haydn ac Alan, Gwenno a Dylan ac Heledd ac Andras gyda phob un yn cyfrannu mewn gwahanol ffyrdd i'r gwaith. Ym mis Mehefin/Gorffennaf ddaeth Steffan Bryn ac Isabel Hughes o dan ysgoloriaeth Banc Santander o Brifysgol Caerdydd a dysgon ni ryw faint am fywyd myfyrwyr yng Nghymru wrth iddynt ymweld â chymaint o ddosbarthiadau â phosib mewn cyfnod eithaf byr.

O dan ofal Suzanne Condon clywsom am hanes y Fari Lwyd, traddodiad Cymraeg sydd wedi cael ei arfer yn y blynydddoedd diwethaf tra bod Sian Thomas wedi rhannu ei sgiliau gyda phlant bach gyda disgblion lleiaf ni. Roedd tîm Lighthouse Theatre wedi gwneud gweithdai drama mewn ysgolion lleol Sbaeneg eu cyfrwng yn ogystal â gweithdai telyn yn Nhrevelin, profiad hollol newydd i ni rwan mae telyn ar gael yn yr Andes, diolch am garedigrwydd ffrindiau yng Nghymru a gyfranodd at y gronfa ddechreuodd Elinor Bennet.

Rydym yn poeni yn arw am 2016: rydym wedi bod mor ffodus i gael dau berson o Gymru i weithio gyda ni eleni ond y flwyddyn nesaf byddwn ni yn mynd yn ôl i un swyddog o dan y prosiect Dysgu Cymraeg a bydd hynny'n golygu torri ar ein darpariaeth. Os oes rhywun sydd eisiau gwirfoddoli a'n helpu croeso mawr! Bydd rhaid llenwi ffurflen fydd yn rhoi syniad i ni sut allwch fod o gymorth ac ymhle . Anfonwch at clarebear2402@hotmail.com.
Diolch o galon i bawb sydd wedi helpu eleni ac ymlaen â ni i 2016!



## Profiad Crwt o Aberteifi yn y Wladfa

Mae amser yn hedfan! Wrth i mi eistedd yma o dan gysgod lliwgar bryniau Valparaíso, Chile, dwi'n sylweddoli bod dros wythnos wedi mynd yn barod ers i mi ail-gydio yn fy mhac a gadael Patagonia i barhau ar fy nhaith o gwmpas De America.
Fe ddes i i'r Wladfa, nid fel athro, nid fel gwirfoddolwr, ond fel ymwelydd yn unig, a ry'ch chi'n gweld digon o rheiny ar hyd y parthau yma! Alla i ond dychmygu pa mor flinedig ac undonog yw hi i groesawu ymwelwyr busneslyd yn gyson, ond fel un o'r rheiny, hoffwn gymryd y cyfle yma i ddiolch yn fawr i chi am eich croeso twymgalon a diffuant, a hynny yng nghanol cyfnod mor brysur o'r flwyddyn i chi. Gwnaethoch i mi deimlo mor gartrefol yn syth, ac roedd hynny'n golygu cymaint.
Treuliais bron i dair wythnos yn y dyffryn i ddechrau, a mwynhau crwydro'r ardal, dod i adnabod pobl yn y gymuned, a phrofi fy Eisteddfod gyntaf yn y Wladfa.
Croesi'r paith wedyn ar y bws dydd, ond cyn setlo yn Nhrevelin go iawn, wythnos digon dryslyd mewn ysgol iaith ym Mariloche yn ymgeisio dod i afael â'r Sbaeneg yn fwy, heb ormod o lwc! Es muy difícil.
Braf oedd cyrraedd yn ôl lawr i dalaith Chubut, a chwrdd eto â ffrindiau newydd wnes i yn y dyffryn, a gwneud rhai newydd, wrth gwrs. Fy mwriad gwreiddiol oedd i aros yn Nhrevelin am wythnos, ond fe fues i gyda chi am dros pythefnos yn y diwedd.

Mae'n anodd dewis uchafbwyntiau, oblegid i mi gael cymaint o brofiadau cofiadwy, ond fe fydd y 24ain o Dachwedd yn fyw yn fy nghof am amser hir. Cerdded o Drevelin i Ysgol 18, gyda'r rifleros yn trotian heibio i ni ar y ffordd; choripan blasus iawn yn yr ysgol; y daith i fyny Craig Goch ei hun, a chyrraedd y top i weld Cwm Hyfryd yn dapestri gwefreiddiol o'n blaenau; y gyngerdd yn y nos (gyda'm coesau dal yn frown oherwydd y llwch o'r mynydd); a chwrw bach i goroni'r cyfan gyda chwmni da o'r Wladfa ac o Gymru!

Fe ymchwiliais i mewn i hanes y Wladfa cyn dod, ac wedi gweld tipyn yn y cyfryngau yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y lle mwy neu lai yr hyn roeddwn wedi'i ddychmygu cyn cyrraedd, ond un peth sy'n sicr; nid oeddwn wedi dychmygu y bydden i'n teimlo cymaint o agosatrwydd at y lle ar ôl cyfnod mor fyr- mae'n siwr yn rhannol oherwydd y tirwedd a'r golygfeydd, yn rhannol oherwydd yr hanes a´r iaith, yn rhannol oherwydd yr asados, ond yn bennaf oherwydd y bobl.
Tan y tro nesa', felly. Tro nesa' buan iawn, gobeithio. Mae amser yn hedfan wedi'r cwbwl...

Steffan (13/12/2015)

Menter
PATAGONIA

Noddwyd y rhifyn yma o 'Llais yr Andes' gan

Menter Patagonia.

Bydd yr elw i gyd yn mynd at Ysgol Gymraeg yr Andes Esquel ac Ysgol y Cwm.







Treuliais wyth niwrnod yn yr Andes fis Tachwedd ac er yr hoffwn i fod wedi aros yno dipyn yn hirach, braf a bendithiol oedd bod yng nghwmni ffrindiau annwyl unwaith eto. Cefais hefyd ambell brofiad ac antur newydd yn ystod fy ymweliad byr a'r ardal.

Un o'r anturiaethau hyn oedd dilyn Iwan Madog ar drywydd rhaeadr arbennig y tu hwnt i Droed yr Orsedd. Ar draws y caeau, trwy'r brwyni, croesi'r nant, dringo'r bryniau a thrwy'r coed… ac er i Iwan benderfynu dweud wrtha i ar ol rhyw hanner awr o gerdded fod piwmas yn byw yno ac i beidio mynd yn agos at ddrewgi os gwela i un, fe gyrhaeddom ben ein taith mewn un darn! Rhaeadr Irfon. Hon yw'r rhaeadr mae Eluned Morgan yn son amdani yn *Dringo'r Andes*: 'Ar lethr Gorsedd y Cwmwl, yn nghanol y goedwig, yr oedd un o'r rhaeadrau hyfrytaf yn y Fro.' A dyna lle buom ni'n edmygu'r olygfa a'i sain wrth yfed tot o fate!

Doedd yr antur nesaf ddim yn bosib ar droed, felly llogi car amdani a gadael i'r ffordd ein harwain ni – Sian Thomas, Iwan a fi. Ein stop cyntaf oedd llyn Epuyen cyn parhau'r daith tua Cholila. Profiad arbennig o swreal oedd bwyta ein picnic ar y gwair y tu allan i gaban Butch Cassidy a'i griw yn ngwres yr haul, ac mae'n hawdd deall pam eu bod nhw wedi dewis y llecyn tawel a diarffordd hwnnw fel cuddfan. Yna ymlaen a ni o'r fan honno i Cholila ei hun a dringo'r bryn lle gallwn ni edrych i lawr ar y pentref heddychlon ac ymestyn am yr haul uwchben.

Dringo Craig Goch yw un o brif ddigwyddiadau blynyddol Trevelin a'r cynffiniau ac heb os nac oni bai, dyma oedd un o uchafbwyntiau fy ymweliad diweddaraf â'r Wladfa. Er i mi ddringo'r graig nôl yn 2011 teimlwn rhyw gyffro o'r newydd wrth baratoi i ddilyn ôl troed y rifleros unwaith eto. Roedd y daith yn heriol ac yn serth ar adegau, ond roedd taflu golwg dros yr ysgwydd ar yr olygfa tu ôl yn ddigon o sbardun i gymryd y camau nesaf. Un o fy hoff rannau o ddringo'r graig yw clywed carnau'r ceffylau'n nesau cyn eu gweld yn pasio ar eu taith tua'r copa, a dilyn ôl eu pedolau. Ond yn sicr, yr uchafbwynt yw cyrraedd copa Craig Goch ac edrych dros Gwm Hyfryd gyda'r gwynt yn eich gwallt a gwres yr haul ar eich wyneb. Mae'n debyg fod rhyw 200 o bobl wedi ymuno a'r ddringfa eleni gan gynnwys dau griw o gerddwyr oedd yn codi arian tuag at ysbyty Felindre, Caerdydd. Yn eu plith roedd ambell wyneb adnabyddus i ni Gymry, gan gynnwys y digrifwr Rhod Gilbert, yr actor Julian Lewis Jones a'r chwaraewr rygbi Shane Williams – cawsom lun gyda phob un ohonynt! Roedd y copa'n llawn pobl a cheffylau wrth i ni ganu anthem yr Ariannin cyn i ambell unigolyn ein hannerch a dawnswyr y Cwm berfformio i'r dorf, a'r cyfan yn nodi 130 o flynyddoedd ers i griw Fontana droedio'r tir am y tro cyntaf. Pa ffordd well o ddathlu sefydlu Cwm Hyfryd na'i weld yn ei holl ogoniant? Daeth y seremoni i ben gyda chanu Hen Wlad Fy Nhadau cyn i bawb ddisgyn y graig unwaith eto tua'r y cwm. Profiad bythgofiadwy arall.

Diolch bawb am eich croeso, eich caredigrwydd a'ch cwmni unwaith eto. Gobeithio y bydd mwy o anturiaethau a phrofiadau i'w cael gyda chi yn y dyfodol.

Lois Dafydd

## Taith Cwmni Dah i Batagonia: Tachwedd 2015

## Datganiad Cenhadaeth: Cofio; Dathlu; Mwynhau.

Rydym yn grwp o ddeg (5 par priod) o ardal Llandeilo a Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin, Cymru. Rydym wedi bod yn edrych ymlaen yn eiddgar ers misoedd at ein ymweliad â chi, trigolion y Wladfa, Patagonia, De America.

Wrth baratoi at y daith anturus hon, darllenasom eto yn fanylach am yr hanes o amgylch ceisio sefydlu gwladfa Gymreig tu allan i Gymru. Cawsom ein synnu wrth sylweddoli fod sawl ymdrech cynharach i alltudio o Gymru i sefydlu gwladfa gwbl Gymreig ei hiaith a'i diwylliant wedi ei gwneud cyn y fintai a ymadawodd ar y Mimosa o Lerpwl yn 1865.

Cant a hanner o flynyddoedd yn ddiweddarach, prif bwrpas ein hantur fach ni yw i gofio'r antur eithafol gynta' hynny a hefyd y minteoedd eraill a ddilynnodd yn ystod yr hanner canrif canlynol.

Cofiwn am y siomedigaeth dwys a'r dewrder ar ol mor-daith hir ac anodd.

Cofiwn am y caledu dwys a wynebwyd gan Cymry dewr a phenderfynnol.

Cofiwn am eu deallusrwydd ymarferol wrth cyd-ymwneud â brodorion cynta'r ardal anhysbell a ddiffaeth.

Cofiwn am eu dyfeisgarwch gwybodus wrth newid tirlun anial yn bridd cynhyrchiadol a maethlon.

Rydym wedi bod yn edrych ymlaen yn fawr iawn at ymuno â chi yn y cofio – a dyma ni wedi cyrraedd i'ch plith!

Wrth gofio, down i ddathlu gyda chi yn yr achlysur arbennig bwysig o gant a hanner o flynyddoedd ers cyrraedd y fintai arwrol gyntaf ar y Mimosa. Mae'n hyfryd i feddwl ein bod ni yma a rydym yn ddiolchgar dros ben ein bod wedi gallu dod. Rhown ein ymddiheuriadau o flaen llaw os na fyddwn yn gallu dod eto i ddathlu achlysur dau can mlynedd ers syfydlu'r Wladfa yn 2065. Rydym yn sicr eich bod deall paham ond hyderwn bydd y dathliad hwnnw yn cael ei gynnal yn ei amser!

Yng nglwm a'r cofio a'r dathlu, down hefyd I fwynhau'r achlysur gyda chi. Dymunwn ein cyfarchion gorau gyd atoch chi fel unigolion, fel cymunedau a fel Gwladfa Cymreig. Ymhyfrydwn 'da'n gilydd yn ein tras Cymreig, ein hiaith, a'n diwylliant unigryw yn y gobaith a'r hyder y byddant yn ffynnu wrth ad-ennill tir a gollwyd. Edrychwn ymlaen at ddyfodol llewyrchus llwyddiannus yn y ddau wladfa. Diolch yn fawr iawn.





# NEWYDDION DA

Atebwch y cwestiynau, a chroeswch allan lythyren gyntaf pob ateb ar y grid. Fe fydd y llythrennau sy ar ôl, yn eu trefn, yn sillafu dau air sy'n gysylltiedig â'r Nadolig.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Th | Ll | I | D | A |
| W | O | E | N | H |
| J | Y | Ch | Ff | Dd |
| G | S | M | T | A |
| C | W | P | R | B |



1 Y baban a anwyd ar Ddydd Nadolig.

2 Roedd y baban yn cysgu yn hwn.

3 Roedd hon yn disgleirio uwchben y stabl.

4 Gŵr Mair.

5 Y brenin creulon.

6 Roedd y doethion yn teithio ar yr anifeiliaid hyn.

7 Aur, --- a myrr.

8 Anifeiliaid y bugail.

9 'Peidiwch ag ----,' meddai'r angel.

10 Enw'r dref lle cafodd y baban ei eni.

11 Roedd raid i'r baban a'i rieni --- i'r Aifft.

12 '--------- yn y goruchaf i Dduw,' meddai'r angylion.

13 Sawl gŵr doeth ddaeth ag anrhegion?

14 'Ganwyd i --- heddiw Waredwr yn ninas Dafydd.'